Papur Briffio 13

Plant a Phobl Ifanc Anabl

Etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol 2007

"Dylai plant a phobl ifanc anabl gael eu cynnwys yn y broses o wella gwasanaethau. Dylid gofyn ein barn am beth yr hoffem ei weld yn digwydd i ni. Dylid ystyried ein barn."

Person ifanc anabl
"Ydych chi'n Gwrando?"
Barnardos Cymru a NCH Cymru, ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2003

Learning Disability Wales
Anabledd Dysgu Cymru

Autism Cymru
Elusen genedlaethol Cymru ar gyfer Awtistiaeth
Wales' National Charity for Autism

Promoting Children's Rights
TROS GYNNAL
Hawliau Plant

NCH CYMRU

NSPCC
Dim mwy o greulondeb i blant. DIM.
Cruelty to children must stop. FULL STOP.

Barnardo's Cymru
RHOI'R DYFODOL YN ÔL I'N PLANT
GIVING CHILDREN BACK THEIR FUTURE

Plant a Phobl Ifanc Anabl

Mae Erthygl 23 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhoi hawl i blant anabl gael cymorth i fyw bywyd llawn ac annibynnol.
Mae Erthygl 24 o Gonfensiwn newydd y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl sydd ag Anableddau yn rhwymo Partïon gwladwriaeth i ddarparu cymorth effeithiol ar gyfer yr unigolyn fel y gall pobl anabl gymryd rhan yn y system addysg gyffredinol a gwireddu eu potensial "gyda'r nod o gynhwysiant llawn".
Mae model cymdeithasol anabledd yn dweud wrthym fod plant yn cael eu hanablu gan eu hamgylcheddau a diffyg cymorth a chyfarpar priodol, yn hytrach na namau corfforol neu anableddau dysgu.

Beth sydd wedi'i gyflawni ers 2003?

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r Cynulliad yn gyffredinol wedi bod yn gefnogol iawn i fesurau i wella bywydau plant anabl. Rhai enghreifftiau o'r hyn a gyflawnwyd yw:
Ymgynghori â phlant anabl a'u rhieni wrth ddatblygu'r Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer Plant, Pobl Ifanc a Gwasanaethau Mamolaeth a lansiwyd yn 2005; Fy Llyfr Oren – cofnod i'w ddal gan blant sydd ag anghenion cymhleth; cefnogaeth i gyngres ryngwladol pobl ifanc anabl, a gynhaliwyd yng Nghymru (mae hyn wedi arwain at greu rhwydwaith i bobl anabl ifanc); tribiwnlys AAA i Gymru; comisiynu mwy o wasanaethau ar y cyd rhwng gwasanaethau cymdeithasol a chyrff iechyd (ac addysg mewn rhai achosion); storfeydd cyfarpar ar y cyd; mwy o wasanaethau therapi cyfrwng Cymraeg; mwy o therapyddion iaith a lleferydd, sy'n gweithio'n fwy hyblyg. Mae rhaglen Rhoi Plant yn Gyntaf wedi canolbwyntio ar blant anabl ac wedi arwain at sefydlu rhagor o Dimau Plant ag Anableddau mewn Awdurdodau Lleol. Cafwyd mwy o weithwyr allweddol hefyd. Mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi cynnal cyfres o adolygiadau o Anghenion Addysgol Arbennig ac wedi gwneud argymhellion ar gyfer gwelliannau. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau drafft ar gynnwys a chynorthwyo disgyblion.
Ar hyn o bryd, mae Pwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol yn adolygu'r ddarpariaeth o wasanaethau i blant a phobl ifanc anabl ac mae wedi comisiynu Barnardo's Cymru i hwyluso Grŵp Cyfeirio Cenedlaethol o blant a phobl ifanc anabl i weithio ochr yn ochr â'r pwyllgor yn ei adolygiad.
Rydym yn disgwyl gweld cyhoeddi cynllun strategol 10 mlynedd i rai sydd ag Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistiaeth a'u teuluoedd cyn hir a chafwyd buddsoddi i ddatblygu ymarfer addysgol ar gyfer plant sydd ag Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistiaeth.
Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dileu'r prawf modd ar gyfer addasiadau i dai ar gyfer plant anabl.

Hefyd, mae 'na ddyletswydd newydd ar gyrff cyhoeddus o ran cydraddoldeb i bobl anabl.

Beth yw ein Pryderon Presennol?

Er gwaethaf yr holl gynlluniau polisi hyn, nid yw'r sefyllfa i lawer o blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd yn fawr gwell nag yr oedd yn 2003. Roedd y plant, y bobl ifanc, y teuluoedd a'r gweithwyr proffesiynol a gyfrannodd at y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol yn meddwl bod y safonau a bennwyd ar gyfer gwasanaethau yn rhai rhagorol, ond ni chafwyd cyllid i gyd-fynd â'r ddogfen a dim ond ar gyfer blwyddyn gyntaf y rhaglen 10 mlynedd y pennwyd camau gweithredu allweddol. Rydym yn falch bod rheolwr wedi'i benodi bellach i oruchwylio'r Fframwaith, ond yn siomedig nad oedd hynny wedi digwydd yn gynt. Bydd ei rôl yn gyfyngedig iawn gan nad oes cyllideb. Mae rhai o'r materion y mae plant anabl a'u teuluoedd yn gorfod delio â hwy o hyd wedi'u nodi isod.

Nid oes unrhyw asiantaeth dan ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau datblygiad plant ar gyfer plant anabl cyn ysgol, felly mae'r gallu i gael y gwasanaethau hanfodol hyn yn amrywio'n aruthrol ledled Cymru, ac mae'r un peth yn wir am y canlynol: gwasanaethau cymorth a chynghori cynnar sydd ar gael i rieni, ansawdd y trefniadau trosglwyddo rhwng gwasanaethau plant a gwasanaethau oedolion, y ddarpariaeth o gymorth cartref ac o gyfarpar fel cadeiriau olwynion addas. Mae diffyg o ran gwasanaethau gofal seibiant byr sy'n helpu i gynnal lles corfforol ac emosiynol y teulu.

Yn achos plant sydd ag anhwylderau emosiynol neu ymddygiadol ac anabledd dysgu, mae diffyg difrifol mewn cyfrifoldeb proffesiynol mewn rhai ardaloedd lle na chânt eu derbyn i ofal Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc. Mewn rhai mannau nid oes gwasanaeth seiciatryddol/seicoleg i drin plant sydd ag ymddygiad heriol iawn, tra bo gwasanaeth cymorth dwys ar gyfer plant o'r fath mewn ardaloedd eraill. Mae hyn yn gwneud gwahaniaeth aruthrol iddynt hwy a'u rhieni/gofalwyr a'u brodyr a'u chwiorydd.

Mae plant anabl wedi'u hallgáu o hyd o lawer o weithgareddau pob dydd oherwydd diffyg darpariaeth gynhwysol a diffyg hygyrchedd. Mae'r camau tuag at addysg fwy cynhwysol i'w croesawu, ond mae hynny wedi cael effaith negyddol ar rai plant lle nad oedd adnoddau priodol wedi'u darparu. Mae plant sydd ag Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistiaeth yn wynebu heriau penodol o ran cael cydnabod a diwallu eu hanghenion. Dyma'r grŵp y mae'n fwyaf anodd dod o hyd i ofalwyr ar ei gyfer, i roi gofal seibiant byr, er enghraifft. Mae anghenion addysgol arbennig, fel Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistiaeth, yn aml yn ffactor pan gaiff plant eu gwahardd o'r ysgol, pan fo lleoliadau'n methu a hyd yn oed pan ddaw'r plant mewn cysylltiad â'r system Cyfiawnder Ieuenctid, ond serch hynny nid oes ganddynt hawl statudol i gael eu cynrychioli pan gânt eu hallgáu.

Mae plant anabl sy'n profi anawsterau wrth gyfathrebu yn ei chael yn anodd iawn cael gwrandawiad i'w barn. Nid yw gwasanaethau eiriolaeth i blant anabl wedi'u datblygu'n ddigonol. Rhaid i eiriolwyr allu defnyddio dewis dull cyfathrebu'r plentyn, fel Iaith Arwyddion Prydain, Makaton a PECs.

Argymhellion

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cynulliad Cymru i:

- Adolygu'r cynnydd ar y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol a darparu cerrig milltir graddedig a chyllideb i weithredu'r safonau ar gyfer plant anabl.
- Creu cyfrifoldeb cyfreithiol newydd, drwy ddefnyddio pwerau newydd y Cynulliad, i fynnu bod cyrff Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg yn cydgomisiynu ac yn cydariannu gwasanaethau datblygiad plant ar gyfer plant anabl cyn ysgol a phlant sydd ag anableddau dysgu.
- Cefnogi ymgyrch Mae Pob Plentyn Anabl yn Cyfrif yng Nghymru.
- Gwella gwasanaethau trosglwyddo.
- Hyrwyddo'r defnydd o weithwyr allweddol a gweithiwr iechyd proffesiynol allweddol ar gyfer plant sydd ag anghenion cymhleth.
- Gweithredu a darparu adnoddau ar gyfer y cynllun strategol 10 mlynedd i rai sydd ag Anhwylder yn y Sbectrwm Awtistiaeth a'u teuluoedd.
- Mabwysiadu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar gyfer pobl gydag anableddau.
- Sicrhau bod adnoddau priodol ar gyfer addysg gynhwysol a bod holl ddisgyblion a staff ysgolion wedi'u hyfforddi mewn ymwybyddiaeth o anabledd. Rhaid wrth rôl glir i Gynorthwywyr Cymorth Dysgu â chymorth ar eu cyfer.
- Cael hyd i ffordd o gynyddu lefel y gwasanaethau cymorth cartref a gofal seibiant byr a ddarperir yn ardal pob Awdurdod Lleol, yn enwedig ar gyfer y plant mwyaf anghenus.
- Sicrhau bod darpariaethau chwarae a hamdden yn hygyrch i blant a phobl ifanc anabl.
- Sicrhau bod mwy o weithwyr proffesiynol yn dysgu i gyfathrebu drwy amryw o ddulliau.
- Ystyried materion sy'n ymwneud â chynllunio'r gweithlu ledled Cymru mewn cysylltiad â gwasanaethau seiciatryddol a seicoleg i blant anabl sydd â phroblemau emosiynol neu ymddygiadol.
- Sicrhau bod pob plentyn anabl yn cael cyfarpar priodol i'w alluogi i gymryd rhan mewn addysg, hyfforddiant, chwarae a hamdden.
- Rhoi hawl i blant gael cynrychiolaeth os cânt eu gwahardd o'r ysgol.
- Sicrhau bod systemau diogelu digonol ar gael ar gyfer plant anabl.
- Gwella ansawdd a chysondeb y data a gesglir.

MANYLION CYSWLLT

BARNARDO'S CYMRU
ANDY JAMES, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL, POLISI
Ffôn: 01792 463357
E-bost: andy.james@barnardos.org.uk

NCH CYMRU
JAYNE ISAAC, SWYDDOG POLISI CYHOEDDUS
Ffôn: 029 20 222127
E-bost: jayne.isaac@nch.org.uk

NSPCC
SIMON JONES, CYNGHORYDD POLISI CYMRU
Ffôn: 029 20 267000
E-bost: simonjones@nspcc.org.uk

ACHUB Y PLANT
ANNE CROWLEY, UWCH GYNGHORYDD POLISI
Ffôn: 029 20 396838
E-bost: a.crowley@savethechildren.org.uk

TROS GYNNAL
JACKIE MURPHY, CYFARWYDDWR CYNORTHWYOL
Ffôn: 029 20 396974
E-bost: jackie.murphy@trosgynnal.org.uk

Cefnogwyd y papur briffio hwn gan Plant yng Nghymru